# Gwirfoddolwyr Archwilio
# Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

**Pwrpas y rôl:** Byddwch chi'n dod â'r Amgueddfa yn fyw i ymwelwyr o bob oed! Byddwch chi'n helpu ymwelwyr i drin a thrafod gwrthrychau o'r casgliadau, chwarae gemau a dod o hyd i'w ffordd o gwmpas. Er enghraifft, gallech chi fod yn helpu ymwelwyr i chwarae dominos yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale, neu ddangos y Welsh Not i ymwelwyr yn ein horielau.

**Lleoliad:** Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru **Adran**: Gwirfoddoli

**Oedran:** 14+

**Dyddiad Cau :** 26 Tachwedd 2024

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- sy'n barod i dorchi llewys
- sy'n mwynhau helpu eraill i ddysgu am hanes
- sydd eisiau magu hyder wrth siarad â phobl ac ateb cwestiynau.

**Ystyriaethau:**

Bydd hyfforddiant ar gyfer y rôl ar y dyddiad isod:

**28 Tachwedd, 10:30am – 14:00pm: Diwrnod Hyfforddi Gwirfoddolwyr Archwilio.** Dyma sesiwn hyfforddi orfodol i bob gwirfoddolwr. Yn ystod y diwrnod, byddwch chi'n cael gwybodaeth am y casgliad, yr Amgueddfa a'r rôl.

Bydd diwrnodau hyfforddi eraill ar gael hefyd, er mwyn i chi ddysgu ragor am elfennau eraill o'r rôl, fel sut i ganu'r pianola. Byddwn ni'n cadarnhau dyddiad y sesiynau ychwanegol hyn yn ystod I diwrnod hyfforddiant.

**Oriau ac Ymrwymiad:**

Bydd y rôl hon ar gael 7 diwrnod yr wythnos. Bydd slotiau bore a phrynhawn ar gael. Gallwch chi ddewis pa mor aml yr hoffech chi wirfoddoli. Er enghraifft, gallech chi wneud bore bob wythnos, neu wirfoddoli yn ystod gwyliau ysgol yn unig.

**Diddordeb?** Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Rydym ni'n cynnig i wirfoddolwyr:

- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis a'n arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni, a
- chyfle i gyfarfod pobl newydd.

